PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 155 | Rhif 40 | Hydref 6, 2022 | 50c.

## Capel Rehoboth, Pum Heol, Sir Gâr

## DAUCANMLWYDDIANT YR ACHOS YM MHUM HEOL

Dros y penwythnos 3–4 mis Medi, roedd capel Rehoboth yn ddathlu daucanmlwyddiant yr achos yn ardal Pum Heol. Roedd yr achlysur yn arbennig wrth edrych 'nôl gyda diolchgarwch dros ddwy ganrif o addoliad a thystiolaeth i'r ffydd Gristnogol yn yr ardal. Yn anochel, mae'n gofnod dethol o'r modd yr ymgymerodd un clerigwr oedrannus â'r dasg aruthrol o adeiladu capel newydd a gweinidogaethu i'r boblogaeth leol. Ufudd-dod y gŵr hwn, y Parchg Thomas Clement, a'i farwolaeth wedi hynny, a arweiniodd at sefydlu capel Rehoboth ar ei safle presennol yn 1827. Ysbrydolodd ei weinidogaeth i bobl eraill barhau i bregethu'r Efengyl er gwaethaf gwrthwynebiad yr eglwys sefydledig.

Fe anwyd yr achos trwy ffydd a dewrder y credinwyr cynnar wrth iddynt sefyll yn gadarn dros ryddid crefyddol a'r hawl i addoli fel yr arweinir. Y mae hanes yr achos yn unigryw yn y modd roedd gwrthwynebiad cryf oddi wrth awdurdodau'r eglwys wladol y cyfnod. Y mae cofnodion hanes yr achos yn adlewyrchu ffydd, ymdrechion ac aberth y rhai a safodd yn gadarn dros y gwir ac a rhoddodd i bob cenhedlaeth a ddilynodd etifeddiaeth ffyddlon a chadarn yr Efengyl. Ers hynny, y themâu a gododd dro ar ôl tro dros y ddwy ganrif ddiwethaf yng nghapel Rehoboth yw: **EFENGYL - ADDYSG - DIWYLLIANT - IAITH - AMAETH.** Wrth gwrs, nid yn unig roedd y dathliad yn ein hatgoffa o ymdrechion a dyfalbarhad cenedlaethau'r gorffennol; mae yna hefyd her i'r genhedlaeth bresennol, i wynebu'r dyfodol yn y sicrwydd fod y Duw a ysbrydolodd yn y gorffennol yn parhau i arwain a chynnal ei Eglwys.





### Brynygroesfach

Dechreuon ni'r penwythnos coffa am 1pm ar ddydd Sadwrn, 3 Medi ar safle gwreiddiol Capel Clement. Gwyddom fod y capel wedi ei sefydlu ym Mrynygroesfach, ffermdy ychydig y tu allan i bentref Pum Heol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw olion ohono ar ôl gan iddo gael ei chwalu'i lawr yn 1826 gan weision Ebeneser Morris, ficer Llanelli. Ar 19 Awst 2022, ymwelodd dau aelod o gapel Rehoboth â Brynygroesfach, a dangoswyd rhai cerrig mawr iddynt a oedd wedi eu cloddio gan y perchennog presennol. Roedd hi'n amlwg eu bod nhw wedi cael eu siapio'n flociau adeiladu; roedd rhai wedi gwyngalchu brychau dal arnynt; fe'u cafwyd mewn un darn hirsgwar o dir wedi'i gysgodi gan goeden ywen oedd o flaen y ffermdy, heb fod yn rhy bell o'r ffordd fawr. Bron yn sicr, dyma'n union roedd lleoliad y capel a godwyd gan Thomas Clement ddau gan mlynedd ynghynt.

### Gwasanaeth cysegru

Ar sail y darganfyddiad hwn, penderfynwyd cynnal gwasanaeth cysegru, byr, syml yn yr awyr agored, ar y safle hwnnw. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg David Jones, a fynychwyd gan groestoriad bychan o aelodau'r capel, ac roedd yn cynnwys cysegru baton pren a wnaed i ni gan grefftwr lleol. Yna cludwyd y baton hwn (gweler y llun) i Rehoboth ar dractor hen-ffasiwn a yrrwyd gan un o'n diaconiaid, a'i drosglwyddo i grŵp o blant wrth gât Rehoboth. Yna aeth y plant tu mewn i'r capel i drosglwyddo'r baton i'r diaconiaid. Clywodd cynulleidfa - o fwy na 150 o bobl - y plant yn adrodd her i ni i gyd cael ein hysbrydoli gan ufudd-dod, tystiolaeth a ffydd Thomas Clement.

### Gwasanaeth diolchgarwch

Arweiniwyd y gwasanaeth diolchgarwch a ddilynodd gan y Parchg David Jones, gyda chyfraniadau gan y Parchedigion Beti-Wyn James, Gerald Jones, Carys Awen Jones, Desmond Davies, Alun Jones, a Meirion Evans, eitem gerddorol a ganwyd gan y mezzo-soprano Eirlys Myfanwy Davies, a dadorchuddiwyd llechen coffâd yn y capel gan Mr Jim Jones (diacon ac organydd ers pedwar degawd). Pregethodd y Parchg David Jones ar Hebreaid 12:1–3, gan ein herio i redeg y ras gyda'n llygaid yn gadarn ar Iesu, yn ddiflino ac yn llawn ffydd a gobaith, yn union fel y gwnaeth ein cyndeidiau.

I gloi ein diwrnod cyntaf o ddathlu, symudodd y gynulleidfa i neuadd y pentref er mwyn cymryd rhan yn ein te

*parhad ar dudalen 2*

## DAUCANMLWYDDIANT YR ACHOS YM MHUM HEOL – *parhad*



cymrodoriaeth, ac i weld Mrs Aerwen Hughes, 101 oed, yn torri cacen arbennig i ddathlu 200 mlwyddiant.

### Cyrddau mawr

Ar ddydd Sul, 4 Medi, cawsom y fraint o gael ein harwain gan y Parchg Vincent Watkins (Carmel, Pontlliw) yn ein cyrddau mawr am 10.30yb ac eto am 6yh. Roedd gwasanaeth y bore yn canolbwyntio ar Luc 18:1–17, a'r angen i ni i gyd fod fel plant wrth dderbyn Teyrnas Duw mewn purdeb a symlrwydd ffydd. Roedd y Parchg Watkins yn gorffen wrth ymofyn: pa rinweddau sydd gan blant bach a'r Cristion anelu ato?

Gyda'r nos, siaradodd y Parchg Watkins â ni o'r geiriau cyfarwydd yn Ioan 3, gan ein helpu i archwilio'r hyn sy'n dweud wrthym am gariad Duw, a'r themâu: rhyfeddod cariad Duw, rhagoriaeth y cariad, rhwydwaith y cariad.

Roedd yn benwythnos bythgofiadwy o ddathlu, coffáu a herio, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a fu'n cynorthwyo, yn cefnogi ac wedi cyfrannu tuag ato. Yn anad dim, gobeithiwn a gweddïwn y bydd achos Iesu Grist yn y gornel hon o'r winllan yn mynd i barhau i ffynnu wrth inni gychwyn ar ein trydedd canrif o dystiolaeth Gristnogol ym Mhum Heol.

DS: mae fideos o'r penwythnos ar gael ar YouTube (chwiliwch am 'Capel Rehoboth Pum Heol'), ac ar dudalen Facebook y capel.

## COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

**Oedfa i nodi trosglwyddo'r gwaith hyfforddi ymhlith yr Annibynwyr o'r Coleg i'r Undeb**

Cynhelir yr oedfa
am 4.00 o'r gloch
ar ddydd Mercher, 12 Hydref 2022
yng nghanolfan Medrus
ar gampws y Brifysgol, Penglais,
Aberystwyth
yn dilyn cyfarfod Cyngor yr Undeb

Croeso cynnes ichi ymuno yn yr oedfa hon i ddiolch am y gorffennol ac ymrwymo i'r dyfodol

**Pregethir gan y Parchg Aled Jones**

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

**Gwahoddiad i ymuno â ni yn ein**

## Gwasanaeth Diolchgarwch a Chroeso

**i ffrindiau, myfyrwyr ac ieuenctid newydd i Lundain.**

**Bore Sul, 9 Hydref am 11.00**
**Lluniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu i ddilyn.**

Eglwys Gymraeg Canol Llundain
30 Eastcastle Street, Oxford Circus,
London W1W 8DJ

Croeso cynnes i bawb

## YMHLITH Y LLYFRAU

*Dyma ran olaf erthygl Iwan Llewelyn am Idwal Jones.*

Pan ddois i yma'n weinidog i Borthmadog yn ôl yn 1993, roedd adeilad capel Salem yn dal oddeutu 700 o bobl. Ymhen rhai blynyddoedd, wrth i gyflwr yr adeilad ddirywio a'r gynulleidfa wanhau oherwydd colledion mawr, colledion a allai daro unrhyw eglwys (gyda llaw, dydw i ddim yn ymddiheuro dim wrth ddweud hyn, mae rhai eglwysi'n ofnus neu'n rhy falch o gydnabod hynny), penderfynwyd mai naill ai – a dyfynnu Idwal Jones yn *Crafu Ceiniog* – llyfr Jona neu llyfr yr Actau fyddai'n digwydd. Mewn cwrdd eglwys, a'r gweinidog heb fod yn bresennol (fel ag y dylai hi fod pan ddaw'n amser trafod unrhyw fater fel hyn), penderfynwyd mai Llyfr yr Actau fyddai'n cario'r dydd, a gwerthwyd y capel, ac y byddai'r gynulleidfa gymharol fechan bellach yn cael bendith fawr wrth addoli'n y festri, a honno'n ystafell sydd wedi'i haddasu ers blynyddoedd i fod yn ystafell amlbwrpas. Cyn y pandemig cawsom sawl oedfa gartrefol yn festri Capel y Traeth yng Nghricieth a hynny ar fore Sul uwchben paned. Y mae'r gynulleidfa'n eitha niferus yno, ac oherwydd hynny, ers y cyfnod clo, dydan ni ddim wedi mentro i'r festri wedyn oherwydd grym Covid ac effeithiau posibl ar y gynulleidfa o orfod bwndelu'n agos at ei gilydd. Ond rwy'n siwr y daw cyfle eto.

Digwyddodd yr un peth yn union yn Soar, Pen-y-groes yn 1994 pan agorwyd y festri'n gapel newydd hwylus, ac y mae sawl lle bellach yn addoli naill ai mewn neuadd bentref neu neuadd ysgol neu unrhyw le, a gwych hynny.

### DYSGU GWERSI

Ydi, mae *Crafu Ceiniog*, Idwal Jones wedi agor drws y meddwl, a gwneud i mi sylweddoli bod Iesu Grist a'r dystiolaeth Gristnogol yn fwy na phob dim, hyd yn oed y weinidogaeth Gristnogol draddodiadol. Onid ydi hi'n bryd inni gofio hynny, ac yn y dyddiau tra gwahanol yma i fod yn hyderus wrth fentro ar hyd llinellau newydd?

Rwy'n siwr y byddai Idwal Jones wedi gwerthfawrogi technoleg Zoom. Nefi! Mae hwn wedi bod yn fendith i bobl yn yr ofalaeth hon, fel ag mewn llu o ofalaethau eraill, a does gen i ddim llawer o amynedd



efo pobl sy'n dweud nad oes ganddyn nhw ddarpariaeth dechnolegol i fedru dilyn. Dwi'n siŵr bod gan eu teuluoedd y darpariaethau yma. Cofiaf yn nechrau argyfwng mawr Covid a neb ohonom yn medru mynd i unrhyw gapel, a ninnau'n dechrau ar y ddarpariaeth dechnolegol newydd hon, dyma un wraig yn dod ar y ffôn efo mi ac yn ymddiheuro na fedrai hi ymuno yn y gwasanaethau oherwydd nad oedd ganddi hi'r ddarpariaeth dechnolegol gyfoes. Ymhen Sul neu ddau roedd hi ar y sgrin, roedd y ferch wedi gofalu ei bod hi'n medru ymuno. Mae popeth yn bosib efo grym ewyllys yn dydi?

### SBARDUN

Mae angen llyfr fel *Crafu Ceiniog* i'n sbarduno ni weithiau, ac mae angen sbardun i 'weithio gwaith y nef wrth olau ffydd,' ac awdur gwaith y nef ydi Iesu Grist.

# Cyflwyno 20 o fedalau Gee yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn

Am y tro cyntaf ers tair blynedd bu'n bosib trefnu digwyddiad torfol ddechrau Medi eleni i gyflwyno ugain o fedalau Gee yn y gogledd. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r medalau wedi cael eu cyflwyno'n lleol, mewn digwyddiadau llai, un ai yng nghapel y sawl sy'n derbyn y fedal neu ar yr aelwyd. Fodd bynnag, bu'n braf gweld cynulleidfa luosog yn crynhoi yn ddiweddar yn Llanuwchllyn, a hynny i gyflwyno medalau i bobl ar draws y gogledd.



Y Parch. Carwyn Siddall, Mrs Nerys Siddall, Dr Isoline Greenhalgh a'r Parch. Aled Davies



Mwynhau'r gwmnïaeth yng nghanolfan y pentref

Croesawyd pawb i'r oedfa gan y Parch. Aled Davies, cyn trosglwyddo'r awenau i weinidog yr eglwys, y Parch. Carwyn Siddall. Estynnodd groeso i Lanuwchllyn i bawb oedd yn bresennol, gan esbonio ychydig am hanes pwysig y capel, a'i gysylltiad â Michael D. Jones, sylfaenydd cymuned y Wladfa. Aeth ymlaen i sôn am werth yr ysgol Sul yn y cylch, cyn iddo ein harwain yn y rhannau arweiniol. Trosglwyddwyd gweddill y cyfarfod i ofal Aled Davies, a aeth ati, gyda chymorth Isoline Greenhalgh a Nerys Siddall, i gyflwyno'r medalau.

Yn y llun, gwelir yr aelodau hynny a dderbyniodd fedal eleni, sef: Aledwen Myra Davies, Capel Saron, Dinbych; Gwilym Davies, Ysgol Sul y Parc, y Bala; Olwen Davies, Ysgol Sul y Parc, y Bala; Heulwen Mai Edwards, Capel y Groes, Dinbych; Lloyd Edwards, Capel y Groes, Dinbych; Gwerfil Alwena Evans, Ysgol Sul Peniel, Llanuwchllyn; Nesta Elizabeth Evans, Capel Saron, Dinbych; Jean Elizabeth Hughes, Capel Lôn y Felin, Llangefni; Awel Jones, Ysgol Sul Peniel, Llanuwchllyn; Gillian Jones, Capel Lôn y Felin, Llangefni; John Gwynfor Jones, Capel y Groes, Dinbych; John Trefor Jones, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Meinir Hedd Jones, Capel y Groes, Dinbych; Wendy Jones, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Beryl Morris, Capel Cefn Berain, Dinbych; Gwyneth Parry, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Mary Annwen Thomas, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn; Helen Mary Williams, Capel Lôn y Felin, Llangefni; Margaret Helen Williams, Capel Lôn y Felin, Llangefni.

Aeth Aled ymlaen i sôn am y ddwy fedal arall fyddai'n cael eu cyflwyno eleni hefyd, sef medalau er anrhydedd gan Gyngor yr Ysgolion Sul. Braint i'r Cyngor eleni oedd cael cyflwyno medal i Dr Isoline Greenhalgh ar ran y teulu Gee. Mae Isoline wedi bod yn rhan o'r cyflwyno ers degawdau, ac wedi cyfrannu'n helaeth drwu brynu'r medalau am gyfnod o 40 mlynedd. A hithau bellach yn ei 90au ac wedi gwneud buddsoddiad pellach eleni i sicrhau cyflenwad o fedalau newydd am y degawd nesaf, dymuniad y Cyngor oedd cyflwyno medal er anrhydedd i Isoline ei hun. Mae ein dyled yn fawr iddi am sicrhau bod y medalau hyn yn cael eu cyflwyno'n flynyddol.

Bydd yr ail fedal er anrhydedd yn cael ei chyflwyno i'r Parch. Tom Defis, Cymorth Cristnogol, a hynny yng Nghaerfyrddin o fewn fy mis – cawn fwy o hanes hynny yn dilyn y cyfarfod yn dilyn y cyflwyniad. estynnodd yr eglwys wahoddiad cynnes iawn i bawb i fynd i'r ganolfan yn y pentref, lle roedd 'na wledd yn ein disgwyl.

Cofiwch fod modd enwebu eraill i dderbyn medalau ar gyfer 2023 unrhyw adeg hyd at 30 Mehefin 2023. Cynhelir y cyfarfodydd gwobrwyo eto'r flwyddyn nesaf, ym mis Medi 2023. Mae'r canllawiau a ffurflen enwebu ar gael o wefan www.ysgolsul.com



BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***

**Sul, 9 Hydref,**

**am 7:30yb a 4:30yp**

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Ebeneser, Castellnewydd Emlyn

**Sul, 9 Hydref, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Emyr Williams, y Gaerwen

S4C


***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***

**Sul, 9 Hydref am 7.30yh**

Bydd Nia yn Amlwch yn darganfod stori'r cerddor ysbrydoledig W. Matthews Williams

# Adolygiad

John Aaron, *Thomas Charles of Bala* (Edinburgh, 2022), clawr caled, 182tt; £15. ISBN 978 1 80040 095 5




Roedd hi'n hen bryd cael cofiant i Thomas Charles o'r Bala gan fod cyfrolau D. E. Jenkins, a gyhoeddwyd yn 1908, yn rhy hir. Cyfaddefa John Aaron mai yno y cafodd y rhan fwyaf o'i wybodaeth, ond bu hefyd yn chwilota ymysg llythyrau cyfoeswyr i'r cawr o'r Bala.


O ddarllen y gyfrol hyfryd hon, sylweddolir bod gennym ddyled anfesuradwy i Thomas Charles (1755–1814), arweinydd pwerus a galluog yr ail genhedlaeth o Fethodistiaid Calfinaidd. Gwnaeth gyfraniad i addysg yng Nghymru drwy ei ysgolion cylchynol, ac yn arbennig yr ysgolion Sul. Aeth ati i hyfforddi pobl oedd yn awyddus i fod yn ysgolfeistri a hynny yng nghartref ei briod, Sally, ac yntau yn y Bala. Chwaraeodd Sally ran amlwg yn ei fywyd ac mae'r darlun a gawn ohoni hi yn y gyfrol hon yn un atyniadol. Hi oedd yn ei gadw drwy elw'r siop.

Nid Charles oedd sylfaenydd yr ysgol Sul; yr hyn a wnaeth ef oedd trefnu cyfundrefn i ofalu, yn wahanol i Robert Raikes, am blant, yn ogystal ag oedolion. Defnyddid y Gymraeg fel cyfrwng dysg, a gellid llwyddo i gael plentyn i ddarllen y Beibl yn y Gymraeg mewn llai na chwe mis. Cafodd gwerin Cymru gynhaliaeth ysbrydol ac ieithyddol ac addysgol, ac y mae bron pawb a anwyd rhwng 1820 ac 1960 ac a gyfrannodd yn greadigol at fywyd cymdeithas Gymraeg yn gynnyrch yr ysgolion Sul.

Mae'r rhestr yn syfrdanol. Chwaraeodd Thomas Charles ran amlwg yng ngenedigaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Cymdeithas y Beiblau ac esboniadaeth Feiblaidd. Cofir hefyd am arwres y werin bobl, Mary Jones (1784–1864) o ardal Llanfihangel-y-Pennant a Bryn-crug. Mae hi bellach yn adnabyddus ar hyd a lled y byd, a chyhoeddwyd ei hanes mewn o leiaf ddeugain o ieithoedd.

Hyfryd yw cael lluniau da yn y gyfrol – o'r Bala, Plas-yn-dre, a llawer mangre a chymeriadau a fu'n cydweithio â Thomas Charles ac a ddylanwadodd arno. Dylai'r gyfrol hon gael croeso da ym Mhrydain ac America gan fod gwasg Banner of Truth yn gweithredu'n fyd-eang.

*D. Ben Rees*




## Bwletin Polisi Cytûn

Diolchwn am Fwletin Polisi Cytûn a ddaeth i law ar gyfer Hydref–Tachwedd. Ynddo fe ofynnir y cwestiwn, 'A fyddwn yn gynnes y gaeaf yma?' gan amlinellu'r sefyllfa ar gyfer unigolion a sefydliadau fel eglwysi ac ymateb llawer o eglwysi i'r argyfwng.

Cawn wybod am nifer o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu i gyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb (8–15 Hydref) a lansio 'Hanes Pobl Dduon Cymru' gan Gyngor Hil Cymru yr hydref hwn. Hefyd, ceir gwybodaeth am Gynhadledd Bywyd Tu Hwnt i Ffiniau, fydd yn dwyn ynghyd lawer o'r rhai sydd ynglŷn â darparu ar gyfer ffoaduriaid yn Lerpwl ar 8 Tachwedd.

Adroddir hefyd am hynt hir Brexit a'i effaith ar lywodraeth Senedd Cymru. Wedi i nifer o gynrychiolwyr o Gymru fynychu Cynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd yn Karlsruhe, yr Almaen, yn ddiweddar, fe roddir sylw i alwad y Gynhadledd am heddwch ar gyfandir Ewrop, a hynny yn wyneb thema'r gynhadledd: 'Mae cariad Crist yn arwain y byd at gymod ac at undod'.

Gellir dilyn y ddolen isod at gopi llawn o'r Bwletin ar wefan Cytûn: www.Cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2022/

**ADNABOD** | **Cymeriadau'r Hen Destament** | **ABRAHAM**

**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.**

## 2 Gras a Ffyddlondeb
## Darlleniad – Galatiaid 3:1–9

Yr wythnos diwethaf nodais nad hanes i ganmol Abraham sydd yn y Beibl, ond hanes i ganmol Duw Abraham. Y tro hwn, gan barhau i gael math o gyflwyniad i hanes ac arwyddocâd Abraham cyn mynd at y testun, yr wyf am nodi sut mae gras ar waith yn ei fywyd, ac effaith hynny arno ef yn bersonol.

Un o'r themâu sy'n cael eu hailadrodd drwy hanes Abraham yw fod perthynas Duw â'r dyn yma'n seiliedig ar ras. Yn wir, yn yr adran hon yr wythnos diwethaf, nodais fod ei alwad yn Genesis 12:1 yn atgoffa darllenwyr yr hanes fod Duw wedi bod ar waith yn ei fywyd ymhell cyn i Abraham gyflawni dim o ran gwasanaethu Duw. Mae'r ymadrodd 'Ac wedi dweud yr Arglwydd wrth Abram' (12:1) yn dangos fod Duw wedi ei alw yn ddyn gweddol ifanc, cyn iddo adael Haran, cyn concro unrhyw elynion, cyn iddo ymrwymo i unrhyw ffyddlondeb i gyfamod Duw, cyn iddo weddïo dros y cyfiawn yn Sodom a Gomora, a chyn llwyddo mewn unrhyw brawf o'i ffydd. I'r gwrthwyneb, mae'n amlwg fod galwad Abraham yn alwad gan y Duw sy'n ein neilltuo cyn inni arddangos unrhyw fath o ymateb iddo. Mae Paul yn ein dysgu am y Duw sy'n ein galw pan oeddem 'yn feirw yn ein camweddau' (Effesiaid 2:1, 4–5). Ac mae'r gras hwn yn hanfodol wedi ein galwad, oherwydd nid yn unig mae'n ras sy'n rhoi bywyd newydd, ond yn cynnal y bywyd, yn dwyn trugaredd Duw i'n bywyd yn feunyddiol. Gan ein bod yn bechaduriaid, rhaid adnabod y tosturi grasol yma. Mae Genesis 15:6 yn dweud am Abraham, 'Credodd Abram yn yr ARGLWYDD, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo.'

Yn Rhufeiniaid 4:3–5 a Galatiaid 3:6 mae Paul yn pwysleisio mai gweithred o drugaredd yw cyhoeddi Abraham yn gyfiawn, nid tâl am weithredoedd da. Sylwch ar ddadl Paul yn yr adnodau yn y llythyr at y Rhufeiniaid: 'Oherwydd beth y mae'r Ysgrythur yn ei ddweud? "Credodd Abraham yn Nuw, ac fe'i cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Pan fydd rhywun yn gweithio, nid fel rhodd y cyfrifir y tâl, ond fel peth sy'n ddyledus. Pan na fydd rhywun yn gweithio, ond yn rhoi ei ffydd yn yr hwn sy'n cyfiawnhau'r annuwiol, cyfrifir ei ffydd i un felly yn gyfiawnder.' I Abraham, i'r Israeliaid oedd yn darllen yr hanesion hyn, ac i ninnau, nid yn unig mae'n rhaid inni gael ein hatgoffa o'r haelioni bendigedig yma sydd yn Nuw, ond rhaid inni gael ein hannog gan y gwirionedd bendigedig fod ymwneud Duw â ni yn ddiogel yn Iesu. Ni fydd raid ceisio cyfiawnder gyda Duw ar sail ein gweithredoedd, ond ar sail ein hymddiriedaeth yn y gweithredoedd a gyflawnodd Duw yng Nghrist yn ein lle.

Wedi dweud hyn, yn y Beibl does yna ddim gwahaniaethu rhwng gras a gweithredoedd, gan fod y naill yn arwain at y llall. A mynd yn ôl at Genesis 12, fe welwn fod galwad grasol Duw yn arwain at weithred Abraham o ufudd-dod. Gyda'r galwad trwy ras, mae'r gorchymyn i fynd, a rhaid i Abraham ymateb i'r galwad hwnnw, a byw yn y lle, y wlad yr oedd Duw yn ei alw iddo. Wrth siarad am Abraham, mae awdur y llythyr at yr Hebreaid yn dweud, 'Trwy ffydd yr ufuddhaodd Abraham i'r alwad i fynd allan i'r lle yr oedd i'w dderbyn yn etifeddiaeth; ac fe aeth allan heb wybod i ble'r oedd yn mynd.' (Hebreaid 11:8)

Os oedd yn wir, ac os yw'n wir, fod angen i bobl Dduw gael eu hatgoffa o ras Duw beunydd, rhai iddynt gael eu hatgoffa hefyd o'u cyfrifoldeb i ymateb i alwad, i orchymyn Duw, beunydd. Rhaid i ni fynd i 'fyw i'r wlad newydd' y mae Duw yng Nghrist yn ein galw iddi. Cawsom ein galw i fod yn y byd, ond nid o'r byd yma mwyach, i fyw yn ein gwlad, ond i fod yn ddinasyddion gwlad arall, dinasyddiaeth sy'n ein galw i fod yn bobl wahanol, yn genedl wahanol, gyda gorchmynion a gwerthoedd gwahanol. Trwy hyn, yr ydym yn dwyn goleuni'r wlad honno i mewn i dywyllwch ein byd, ac yn gwneud hynny drwy beidio 'â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef.' (Rhufeiniaid 12:2)

1. Wrth feddwl yn ôl, pa bethau yn eich hanes fyddech yn cyfeirio atynt fel esiamplau o Dduw yn gweithio yn eich bywyd, cyn i chi ddechrau gweithio neu fyw i Dduw?
2. Pa mor bwysig dybiwch chi yw credu fod Duw yn ein galw i berthynas ag Ef er gwaethaf ein gweithredoedd?
3. Meddyliwch am esiamplau yn eich bywyd lle rydych wedi gorfod cefnu ar 'fyw yn eich gwlad eich hun' oherwydd ufudd-dod i orchymyn Duw i 'symud i wlad arall'.



# Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin 1622-1688



*Dyma ran olaf darlith a draddodwyd gan Dr Emyr Gwyn Evans fel rhan o bererindod Gofalaeth Broydd Myrddin*

Ym mlwyddyn olaf ei oes, 1688, bu Stephen Hughes yn gyfrifol am gyhoeddi cyfieithiad Cymraeg o glasur John Bynyan *Taith y Pererin*. A gyda llaw, nesaf at y Beibl, dyma'r llyfr Cymraeg sydd wedi ei werthu a'i ddarllen fwyaf. Yn ôl ymchwil gan Mairwen Lewis, gwyddom, rhwng 1688 a 1934 bod oleiaf 41 argraffiad o *Taith y Pererin* wedi eu cyhoeddi yng Nghymru. Ond i Stephen Hughes y mae'r clod a'r diolch am gael y gyfrol gyntaf yn Gymraeg.

### Iaith ddirmygedig

A chofiwch, 'haws dywedyd mynydd na myned trosto.' Roedd Stephen Hughes yn byw mewn oes pan nad oedd fawr o gariad at y Gymraeg mewn cylchoedd eglwysig ac addysgol. Roedd llawer o aelodau'r cymdeithasau dyngarol yn Llundain (dim ond yn Llundain yr oedd hawl i argraffu llyfrau yn y cyfnod) ac roedd mwyafrif o wybodusion y wlad o'r farn mai iaith israddol a dirmygedig oedd y Gymraeg ac mai gwaith ofer oedd cyhoeddi llyfrau Cymraeg. 'Pwy eisiau trafferthu gyda'r Gymraeg sydd?' meddent. Roedd Stephen Hughes yn parchu'r Gymraeg ac yn sylweddoli mai pennaf iaith Cymru oedd y Gymraeg a bod rhaid cyrraedd y Cymry uniaith trwy'r Gymraeg. Roedd yn siarad yr iaith, dyna oedd ei iaith pob dydd ac os oedd llawer o bobl ddi-Gymraeg a llawer o Gymry oedd yn llugoer eu hagwedd tuag at y Gymraeg, rhai oedd yn edrych ymlaen at weld y Gymraeg yn trengi ac yn diflannu o'r tir, ateb Hughes iddynt oedd, 'haws dywedyd mynydd na myned trosto.' Yn nhrefn rhagluniaeth roedd ganddo ffydd yn nyfodol y Gymraeg, ac yn ffydd yr hen ŵr o Bencader roedd yn gobeithio a hyderu mai y Gymraeg fyddai'n cael ei siarad yn ardal Pencader a gweddill Cymru hyd ddydd y farn! Ac yng ngeiriau cân y foment a geiriau Dafydd Iwan, 'er gwaethaf pawb a phopeth, ry'm ni yma o hyd'.

O gofio'r cyfan hyn mae Stephen Hughes yn deilwng o gael ei gofio fel un o gymwynaswyr y Gymraeg. Yng ngeiriau Geraint Jenkins, 'ni wnaeth neb yn fwy nag ef yn ystod "Oes yr Erlid Mawr" i estyn einioes yr iaith Gymraeg.' Fe arweiniodd ei lafur a'i ddylanwad at ddadeni llenyddol ac yn y man at ddeffroad ysbrydol, deffroad mawr Diwygiad Efengylaidd y ddeunawfed ganrif. Cafodd ei lafur a'i gyhoeddiadau ddylanwad aruthrol yma yng Nghymru.

'Elusen i'r enaid yw gosod llyfr da yn llaw dyn.' Ac ym mlwyddyn pedwarcanmlwyddiant ei eni, dewch i ni (a dewch i ni Gristnogion Shir Gâr) ei gofio fel un o gewri ein traddodiad a'n hetifeddiaeth ymneilltuol. Diolch am Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin, yng ngeiriau Joshua Thomas a 'ddechreuodd agoryd llygaid y Cymry.'

# Adlais: *Dy gariad tragwyddol Di*

Fe lansiwyd albwm mawl hir ddisgwyliedig criw Adlais sef *Dy gariad tragwyddol Di* ar ddydd Iau 18 Awst. Ers misoedd bu'r criw o gerddorion wrthi'n brysur yn cyfansoddi, ymarfer a recordio caneuon mawl cyfoes Cymraeg, rhywbeth sydd ei fawr angen arnom ac mae'n fendigedig fod hwn bellach wedi ei gyhoeddi. Mae Adlais yn credu ei bod yn hanfodol i Gristnogion Cymraeg gyfansoddi caneuon addoliad gwreiddiol ac nid defnyddio cyfieithiadau caneuon o ieithoedd eraill yn ddiddiwedd. Y mae Duw wedi ein creu fel pobl greadigol ac y mae yr Ysbryd Glân yn mireinio doniau Cristnogion Cymraeg er mwyn clodfori'r Arglwydd, cyhoeddi'r newyddion a llwyddo gwaith ei deyrnas. Nid eu bwriad yw disodli emynau traddodiadol Cymraeg ond yn hytrach ychwanegu at y casgliad cyfoethog o ganeuon mawl sydd eisoes gennym fel Cristnogion. Y gwir yw bod angen ystod ehangach o arddulliau cerddorol yn ein haddoliad. Ni allwn aros yn ein hunfan, canlyniad hynny fydd delwi. Mae'n angenrheidiol i rai o'n caneuon mawl adlewyrchu'r diwylliant cyfoes cerddorol sydd o'n cwmpas ac sy'n ran allweddol o fywydau pobl ifanc.

### Y cynnwys

Y mae wyth o ganeuon newydd sbon danlli ar yr albwm hyfryd hwn gyda theitlau fel 'Gwaredwr', 'Salm 100' a 'Iachawdwr' Hael. Mae'r gân agoriadol 'Gwaredwr' sy'n cael ei chanu gan Cadi Gwyn, yn fyfyrgar ei naws yn tynnu ein meddyliau at Iesu a'i gariad er mwyn ystyried fod ei bresenoldeb yn tawelu stormydd bywyd. Dywed rhan o'r gytgan, 'Amhrisiadwy yw dy bresenoldeb, ond yma caf fy ngwadd, i lonyddu a chyffesu mai ti yw Duw uwch pob eilun sydd.' Mae 'Salm 100' a genir gan Meilir Geraint, yn fwy bywiog ei naws a chydag arlliw o ganu gwlad. Mae'n cyflwyno'r anogaeth sydd yn Salm 100 i addoli'r Arglwydd. 'Gwaeddwch yn uchel i'r Arglwydd, gwaeddwch wrth bobol y byd. Addolwch yr Arglwydd yn llawen, addolwch yr Arglwydd o hyd.' Ond fy hoff gân ar yr albwm hwn yw 'Iachawdwr hael'. Mae'n cychwyn gyda chordiau piano trydan ac yna mai llais Cadi yn ymuno yn hyfryd gyda'r geiriau, 'Ymgrymaf Iesu o dy flaen, cyflwynaf nawr yr hyn a fydd.' Geiriau o ymgysegriad sydd yma yn diolch i Dduw am yr iachawdwriaeth trwy Iesu, ei farw aberthol a'i atgyfodiad, ac ymrwymiad y Cristion i wasanaethu. Pwysleisir hyn yn y cytgan lle y dywedir, 'Iachawdwr hael gwna fi'n rhydd, crefftwr cain, newid fi, Tywysog hedd rho nerth i mi, er mwyn dy deyrnas di.'

### Cyfranwyr

Y prif leisiau ar yr albwm yw Meilir Geraint o Bontypridd a Cadi Gwyn o Fangor ac y mae eu lleisiau'n asio'n hyfryd i'w gilydd. Y mae'r cynhyrchiad yn lân a phroffesiynol ac ansawdd y sain

*parhad ar y dudalen nesaf*




*Cadi Gwyn*

# Barn Annibynnol

## Ymateb i'n cymuned

Y tro nesaf fyddwch chi yn eich capel neu eglwys, gofynnwch i bawb nodi'r grwpiau y maent yn perthyn iddynt; y cymdeithasau, yr elusennau, y grwpiau diddordebau, ac yn gyflym iawn y gwelwch chi faint ac ehangder y cysylltiadau sydd gyda ni o fewn ein cymunedau Cristnogol.

Ac eto, cawn adegau pan deimlwn yn unig, pan fo pryder yn ein llethu, hyd yn oed mewn ystafell yn llawn o bobl a chyda chyfoeth yr holl rwydweithiau sydd gyda ni. Ond adwaith naturiol nifer ohonom yw cuddio pan fo pethau'n mynd yn drech na ni ac y mae'n anoddach dyfalu angen rhywun pan fod hyn yn digwydd. Rhaid holi a siarad ac ymateb yn briodol.

### Unigrwydd

Mae'r heriau sydd o flaen y miliynau yn ein cymunedau ni dros y misoedd nesaf yn anferth, y mae am wneud pobl i deimlo'n ynysig ac unig. Sut ydyn ni felly fel cymuned o Gristnogion yn gallu eu cynorthwyo? Mae angen ni feddwl o ddifri am hyn, gan fod yn rhaid i ni fel eglwysi ystyried ein hymateb yn ofalus i'r ystod o angen sydd wedi ac sy'n mynd i ddod i'r amlwg dros fisoedd y gaeaf ac y mae angen i ni ddarganfod beth yw'r anghenion hynny y gallwn ymateb iddynt.

### Dim newydd dan haul

Mae hanes ym mhennod 8 llyfr Amos yn sôn am weithwyr yn methu aros tan fod rhwymau'r Sabath drosodd er mwyn mynd yn ôl i wneud beth bynnag mae'r gweithwyr am ei wneud. Yn adnodau 5–7 mae Amos yn rhoi geiriau yng ngenau'r rhai y mae'n eu condemnio, gan eu nodweddu fel pobl ffôl, anghyfiawn, dideimlad sydd wedi gwrthod Cyfraith Dduw. Mae Amos yn gwneud i wrthrych ei feirniadaeth gondemnio eu hunain gyda'u geiriau gwarthus eu hunain:

'Pryd bydd yr addoli ar ben, fel y gallwn ni fynd yn ôl i'r gwaith?' 'Gadewch i ni godi cyfraddau llog uwch, a chodi ffioedd 'aelodaeth' ar gynigion adennill credyd.'
'Gallwn godi tâl dwbl neu driphlyg os ydym yn galw ein cynnyrch yn "newydd", neu'n "organig," neu'n "lleol".'
'Ni fydd y tlawd byth yn ei weld am yr hyn ydyw mewn gwirionedd.'




Cyfarwydd? Nid yw'r byd wedi newid llawer ers dyddiau Amos!

### Heriau cyfoes

Mae'n gwaith ni felly dros y misoedd nesaf fel eglwysi'n gorfod ystyried yr holl hyn yng nghyd-destun heriau ein cymunedau ni heddiw ac nid dod i addoli a gadael. Nid chwilio am y fargen orau ond talu pris teg. Mae datblygu ymateb i'n cymuned fel eglwysi'n heriol, mae'n ymwneud â risg, mae'n golygu caniatáu i'n hunan ddod yn ddarostyngedig i eraill ond mae'n fuddsoddiad gwerth chweil.

Mae llythyr Paul at y Galatiaid 5:22–24 yn rhestru ffrwyth yr Ysbryd:

> Ond dyma'r ffrwyth mae'r Ysbryd Glân yn ei dyfu yn ein bywydau ni: cariad, llawenydd, heddwch dwfn, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth. Does dim cyfraith yn erbyn pethau felly. Mae pobl y Meseia Iesu wedi lladd y natur bechadurus gyda'i nwydau a'i chwantau drwy ei hoelio hi ar y groes. Felly os ydy'r Ysbryd wedi rhoi bywyd i ni rhaid i ni adael i'r Ysbryd ein harwain ni. Gadewch i ni beidio bod yn falch, a phryfocio'n gilydd a bod yn eiddigeddus o'n gilydd.

### Blaenoriaethu

Wrth i ni ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer y misoedd nesaf yn ein heglwysi, rhaid i ni fod yn wahanol i'r rhai yn stori Amos. Dylem fod yn wahanol oherwydd ein bod yn ddilynwyr Crist. Ni yw pobl y Meseia!

Bydd gweithredoedd llawn cariad, llawenydd, heddwch dwfn, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth yn helpu i ddod â chymorth, undod ac iachâd i'n cymunedau, a bydd yn datblygu perthnasoedd a rhwydweithiau cariadus sy'n para!

Ar ôl i chi lunio eich cynllun gweithredu, beth am ei rannu gyda ni? Sawl cynllun gallwn ni weld dros y misoedd nesaf?

**Elin Maher**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Adlais: *Dy gariad tragwyddol Di – parhad*

o'r radd flaenaf. Ar ben ansawdd ragorol y gerddoriaeth a'r offerynnau y mae safon y geiriau'n wych ac yn ennyn addoliad yn y sawl sydd yn gwrando. Hoffwn eich annog i wrando arnynt oherwydd o wneud hynny fe gewch fendith ysbrydol. Gorau i gyd os gwnewch hynny trwy ffonau clust. Gall yr albwm hwn droi eich taith yn y car neu ar droed yn oedfa o fawl adnewyddol.

Gellir gwrando ar yr albwm a'i lawr lwytho ar Spotify, Apple Music, iTunes a Deeser. Am ragor o fanylion ewch i dudalen Adlais ar Facebook.




*Cadi Gwyn, Tim Sonic One Studio a Meilir Geraint*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dathliad y Parchg D Gwylfa Evans

Dydd i'w gofio oedd dydd Sul, 11 Medi 2022. Roedd yn ddiwrnod arbennig iawn yn hanes y Parchg D. Gwylfa Evans. Ar brynhawn braf ar gyrrau Llundain daeth nifer fawr o aelodau, cyn aelodau a ffrindiau i Eglwys Gymraeg Annibynnol Harrow. Y rheswm i ymgynull oedd i ddathlu a diolch am wasanaeth Gwylfa fel gweinidog i'r Arglwydd Iesu am chwe deg o flynyddoedd. Camp ardderchog, yn wir.



### O Bentrefoelas i Harrow

Dechreuodd taith y Parchg D. Gwylfa Evans yn y weinidogaeth ym 1962 yn Bethel, Pentrefoelas, Nebo a Siloam, Dyffryn Conwy, gyda'i briod, Buddug, ac oddi yno yn 1968 i'r Pwll, ger Llanelli a Seion, Porth Tywyn. Yna, ym mis Medi 1978 daeth i Eglwys Gymraeg Annibynnol Harrow. Bu hefyd yn weinidog ar dair eglwys arall yn Llundain, y Tabernacl King's Cross, y Boro' a Radnor Walk. Erbyn hyn mae Gwylfa yn weinidog anrhydeddus ac wedi bod gyda ni yn Harrow am bedwar deg pedwar o flynyddoedd. Er ei fod wedi ymddeol yn swyddogol mae ei ofal drosom mor ofalus ag erioed.

### Cyfranwyr

Cawsom wasanaeth bendithiol iawn o dan ofal y Parchg Ddr Geraint Tudur a rhoddodd, yn ei bregeth, ddarlun perffaith o Gwylfa yn ei ffyddlondeb i'w alwad i wasanaethu Iesu Grist. Cafwyd cyfarchion ar ran yr eglwys gan y trysorydd, Mr Merfyn Roberts a datganiad cerddorol gan Mrs Glenys Earnshaw. Cyflwynodd Mr Kenneth Kyffin gerdd arbennig i Gwylfa o waith y prifardd John Gwilym Jones, a rhoddodd Dr Mair Barltrop dusw o flodau i Buddug. Ar ôl y gwasanaeth roedd yn braf cael mwynhau paned a danteithion gyda ffrindiau hen a newydd. Diwrnod hyfryd iawn.

**Glenys Earnshaw**




*Mr Kenneth Kyffin yn cyflwyno y gerdd 'Gwylfa' gan y prifardd John Gwilym Jones*

## Gwylfa

Fy nghyfaill wyt, fy nghyfoed,
ond o draw gwyliwn dy droed.
Gwyliwn dy lwybr o'th goleg
I'r tir tua'r Gogledd teg.

O'r dydd y gwelaist Buddug,
o hynny ymlaen – dau ymhlyg;
drwy ofid a hir ofal
ei chysur fel dur fu'n dal.

Yna'ch dau'n cael eich denu
gan lithiau galwadau lu.
Felly bu: newidiaist barth
o Nebo i'r Deheubarth.


Nes mynd yn ôl i'th Lundain,
O'r De i fangre'r iaith fain;
a dinas man dy eni
fu'n gronglwyd dy aelwyd di.

Pawb a ŵyr mor llwyr, mor llawn
dy ymroddiad amryddawn;
a gwylaidd dy fugeilio
i glaf a'i fywyd dan glo.

Ond, ar hyn, holl faes dy rôl
a ledaist yn rhyngwladol,
a hoen dy waith yn dy wedd
yn frwd gan eangfrydedd.

I chi doed, bellach, eich dau,
haeddiannol fwyn hamddenau:
a thâl i Buddug a thi –
hael wleddoedd o benblwyddi.
A'r fwynaf hyfrytaf fraint –
henoed cyn dyfod henaint.

**John Gwilym Jones**




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*